I grynhoi, wrth wneud ei benderfyniad, ar ôl ystyried y canllawiau perthnasol yng nghylchlythyr 23/02, ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'r holl faterion a gafodd eu dwyn at ei sylw, nid oedd y Prif Weinidog yn fodlon, yn benodol, y byddai'r cynigion hyn yn fodd i sicrhau y byddai cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys holl elfennau gofynnol y cwricwlwm, yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl grwpiau oedran yr effeithir arnynt. Er y byddai'r cynigion yn esgor ar nifer o fanteision, mae'r pryder ynghylch a fyddai modd darparu cwricwlwm eang a chytbwys yn y dyfodol yn drech na'r manteision hyn. Roedd y Prif Weinidog hefyd o'r farn, er y byddai safon y ddarpariaeth yn gwella ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, na fyddai'n gwella ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg, yn enwedig yn y tymor byr (am gyfnod o hyd at 6 blynedd), yn benodol felly o'i chymharu â'r ddarpariaeth bresennol o ran yr adnoddau a'r lle sydd ar gael. Am bob un o'r rhesymau hynny, o'u hystyried ar wahân neu gyda'i gilydd, mae'r Prif Weinidog yn fodlon na fyddai'r cynigion yn unol â'r canllawiau yn y cylchlythyr, nad oes digon o gyfiawnhad dros beidio â gweithredu yn unol â'r cylchlythyr, ac na ddylid cymeradwyo'r cynigion.

Mae'r Prif Weinidog yn fodlon bod yr awdurdod lleol wedi bodloni'r gofynion statudol o ran cyhoeddi'r cynigion, ac mae'n nodi ei fod, yn unol â Rheoliadau 1999, wedi cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 4 i'r Rheoliadau hynny.

### **Gwrthwynebiadau i'r cynigion**

Mae'r Prif Weinidog yn nodi bod cyfanswm o 1759 o wrthwynebiadau statudol i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Lansdowne ac Ysgol Tan yr Eos, gan gynnwys gwrthwynebiadau oddi wrth ddisgyblion Ysgol Gynradd Lansdowne, rhieni, perthnasau, trigolion a phartion eraill â buddiant, ac un yr un oddi wrth y canlynol:

Staff a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Lansdowne  
Pwyllgor Gweithredu Ysgol Gynradd Lansdowne  
Plaid Lafur Treganna  
Arweinwyr y Gymuned Bangladeshaid  
Rhodri Morgan AC Gorllewin Caerdydd  
Kevin Brennan AS Gorllewin Caerdydd  
Cynghorwyr Treganna  
Y Ganolfan Addysg Islamaidd (Mosg Jalalia)

Mae wedi nodi prif bryderon y gwrthwynebwyr. Ceir crynodeb o'r gwrthwynebiadau hynny yn y Datganiad Gwybodaeth sy'n sail i'w benderfyniad. Nododd hefyd y crynodeb o ymatebion yr awdurdod lleol, ac fe'u cynhwysir hwy hefyd yn y Datganiad Gwybodaeth. Mae'r Datganiad Gwybodaeth i'w weld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r ddolen a ganlyn:

<http://new.wales.gov.uk/publications/accessinfo/drnewhomepage/?lang=en>

Mae'r Prif Weinidog yn nodi hefyd fod yr awdurdod lleol wedi cael bron 400 o lythyrau yn cefnogi'r cynigion. Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn un anarferol ac yn sylweddoli bod y gefnogaeth a fynegwyd yn dangos y dymuniad cryf ymhlith rhieni i weld y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ehangu, nod y mae'r Prif Weinidog yn ei gefnogi'n llwyr.

## Casgliadau'r Prif Weinidog

Yn gryno, felly, byddai'r cynigion hyn, o'u gweithredu, yn arwain at gau Ysgol Gynradd Lansdowne. Ar hyn o bryd, i bob pwrpas, mae dwy ysgol gynradd, Ysgol Treganna ac Ysgol Gynradd Radnor, yn rhannu safle. Byddai Ysgol Treganna yn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Lansdowne (a byddai newidiadau rhagnodedig yn cael eu gwneud er mwyn i hynny ddigwydd). Byddai disgyblion y byddai disgwyl iddynt, fel arall, fynychu Ysgol Gynradd Lansdowne yn gallu trosglwyddo i Ysgol Gynradd Radnor, a byddai'r newidiadau rhagnodedig angenrheidiol yn cael eu gwneud er mwyn ehangu ei capasiti ac ehangu'r ystod oedran yn yr ysgol honno.

Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, er ei fod o'r farn bod yr awdurdod lleol, yn ei ymatebion, wedi rhoi atebion digonol i'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn y gwrthwynebiadau statudol, nid yw'r Prif Weinidog yn fodlon, yn achos rhai o'r materion, bod y cynigion yn unol â'r canllawiau yn y cylchlythyr. Mae ei gasgliadau penodol am y prif faterion perthnasol yn cael eu nodi isod. Roedd y Prif Weinidog hefyd o'r farn, er y byddai safon y ddarpariaeth yn gwella ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, na fyddai'n gwella ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg, yn enwedig yn y tymor byr (am gyfnod o hyd at 6 blynedd). Mae'r Prif Weinidog wedi cael cyngor oddi wrth Estyn am yr agweddau addysgol a ganlyn ar y cynigion.

### (i) Safonau'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal

Ar sail y dystiolaeth a geir yn adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ac mewn data perfformiad sydd wedi'i feincnodi, ac ar sail cyngor gan Estyn, roedd y Prif Weinidog yn fodlon y byddai plant a fyddai'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd Lansdowne i Ysgol Gynradd Radnor yn cael safon dda o addysg o ran bod athrawon â chymwysterau priodol ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth a wneir ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Ar sail arolygiadau Estyn, ymddengys ar hyn o bryd fod ansawdd yr addysg yn y naill ysgol a'r llall yn debyg iawn. Byddai cyllideb fwy gan un ysgol fwy ar gyfer 420 o ddisgyblion, ac o'r herwydd, byddai ganddi fwy o hyblygrwydd o ran gwariant, a chan y byddai mwy o staff mewn ysgol o'r maint hwnnw, byddai mwy o gyfle i arbenigo mewn pynciau penodol ac i rannu arferion da, a byddai hynny hefyd yn hwyluso'r gwaith o ddarparu'r cwricwlwm.

O ran adeiladau ysgolion a'r cyfleusterau ynddynt, nid oedd y Prif Weinidog wedi'i argyhoeddi y byddai'r cynnig hwn yn arwain at wella'r ddarpariaeth am gyfnod o hyd at 6 blynedd ar ôl i'r cynigion gael eu rhoi ar waith ar gyfer disgyblion a fyddai'n mynychu Ysgol Heol Radnor yn y dyfodol. Nododd y Prif Weinidog, er bod cyfanswm capasiti'r adeiladau yn Ysgol Heol Radnor yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer 420 o ddisgyblion yn y tymor hwy, y byddai angen addasu'r adeiladau presennol er mwyn darparu ar gyfer nifer mwy o ddisgyblion na hynny (yn ôl yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, hyd at 575, o bosibl), oherwydd yn y tymor byr, byddai nifer mawr o'r disgyblion presennol yn Ysgol Gynradd Lansdowne yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Gynradd Radnor. Byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid cyfyngu ar y lle ategol a fyddai ar gael, a hynny er mwyn darparu ar gyfer y nifer mwy o ddisgyblion a fyddai ar y safle yn y tymor byrrach (ar sail yr wybodaeth a gafwyd oddi wrth yr Awdurdod lleol, gallai'r cyfnod hwnnw fod yn gyfnod o hyd at 6 blynedd).

Mae'r Prif Weinidog yn gwybod ei bod yn fwiad gan yr awdurdod lleol fuddsoddi yn yr adeiladau ac yn y maes chwarae er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael yn y tymor hwy; y bydd gwelliannau o ran mynediad i ddisgyblion anabl; a bod cynlluniau ar droed i wella'r lle chwarae allanol drwy ddarparu wynebaw mwy addas. Roedd yn destun pryder i'r Prif Weinidog bod y safle yn Ysgol Gynradd Radnor, at ei gilydd, o'i gymharu â'r canllawiau yn y Bwletin Adeiladu, 17% yn llai na'r maint a argymhellir ar gyfer ysgol â 420 o ddisgyblion oed cynradd, ynghyd â meithrinfa. Mae'r lle sydd ar gael y tu allan gryn dipyn yn llai hefyd nag y disgwyld ar gyfer ysgol newydd neu ysgol wedi'i hadnewyddu ar gyfer y nifer hwn o ddisgyblion. Felly, o ran cael manteisio ar ddarpariaeth briodol o ran lle y tu allan ac o ran lle chwarae, mae'r Prif Weinidog o'r farn na fyddai'r ddarpariaeth honno'n ddigonol yn Ysgol Heol Radnor ar ôl iddi gael ei hehangu, yn yr un modd ag y mae'r ddarpariaeth honno'n annigonol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r 2 ysgol sydd ar y safle hwnnw ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater y tynnwyd sylw ato mewn arolygiad gan Estyn o Ysgol Treganna.

Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod y ffaith nad yw'r canllawiau yn y Bwletin Adeiladu yn rhai statudol, ond mae'n pryderu y gallai'r trefniadau a gynigir ar gyfer Ysgol Heol Radnor gyfyngu ar yr ystod o brofiadau y byddai'r ysgol yn gallu eu cynnig ac ar y cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Ymhlith y cyfyngiadau posibl hynny y byddai diffyg lle ac adnoddau i fanteisio i'r eithaf ar y gweithgareddau dysgu a gâi eu cynnig. Yn benodol, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai sefyllfa'n codi yn y dyfodol agos lle na fyddai'r rheini a fyddai'n cael eu trosglwyddo o Ysgol Gynradd Lansdowne yn gallu manteisio ar yr ystod o le chwarae a lle ategol ychwanegol sydd ar gael iddynt yn eu hysgol bresennol. Er bod y Prif Weinidog yn cydnabod y gallai'r cynigion wella safon y ddarpariaeth yn yr ardal o safbwynt yr elfen addysgu, roedd yn amau y byddai'n gwella'r ddarpariaeth o ran yr ystad ysgolion yn y sector cyfrwng Saesneg, a hynny am gyfnod o hyd at 6 blynedd neu am gyfnod a allai fod yn hwy na hynny.

Canfyddiad y Prif Weinidog oedd y byddai'r ddarpariaeth i ddisgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn gwella. Byddai ysgol fwy hyfyw yn cael ei chreu drwy gau Ysgol Tan yr Eos a thrwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Treganna, a fyddai wedi cael ei symud a'i hehangu, a lle y byddai darpariaeth feithrin ar gael. Gan y byddai mwy o staff yno, byddai hynny'n esgor ar fanteision cysylltiedig o ran darparu'r cwricwlwm. Byddai digon o le ar y safle newydd i alluogi disgyblion i fanteisio ar ystafell TG, a byddai yno hefyd fanteision eraill, nad ydynt ar gael iddynt ar hyn o bryd.

Daeth y Prif Weinidog i'r casgliad y byddai safon y ddarpariaeth addysgol, at ei gilydd, yn gwella ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, ond nid oedd wedi'i argyhoeddi mai dyna fyddai'r sefyllfa yn y sector cyfrwng Saesneg, yn enwedig yn y tymor byr (am gyfnod o hyd at 6 blynedd), ond hefyd yn y tymor hwy, yn enwedig o'i chymharu â'r ddarpariaeth bresennol o ran y lle a'r adnoddau sydd ar gael.

## **(ii) Darparu cwricwlwm eang a chytbwys**

Mae yna agweddau ychwanegol ar y cynnig, sy'n gysylltiedig â'r safle a'r adeiladau yn Ysgol Gynradd Radnor, sydd wedi peri i'r Prif Weinidog gwestiynu a fydd y cynnig hwn, at ei gilydd, o fudd i addysg mwyafrif y plant sydd o dan sylw. Mae'r awdurdod lleol wedi dweud ei fod, wrth ddatblygu'r cynnig, wedi cyfeirio at y canllawiau yn y Bwletin Adeiladu, sy'n gwneud argymhellion am faint safleoedd. Ar ôl ceisio cyngor proffesiynol am faint safleoedd, ymddengys yn glir i'r Prif Weinidog fod y safle sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Radnor yn llai na'r maint lleiaf a argymhellir yn y Bwletin Adeiladu ar gyfer 420 o ddisgyblion a meithrinfa ac ynddi 26 o leoedd (cyfwerth amser llawn). At hynny, mae'r awdurdod lleol wedi egluro wrth y Prif Weinidog, er mwyn rhoi'r cynnig ar waith, bod

posibilrwydd y byddai rhyw 575 o ddisgyblion, ar wahân i'r disgyblion meithrin, ar gofrestr Ysgol Gynradd Radnor yn y tymor byr (am gyfnod o oddeutu 6 blynedd).

Roedd yn destun pryder i'r Prif Weinidog y byddai cynifer o ddisgyblion ar safle sydd ychydig yn llai o faint na'r hyn a argymhellir ar gyfer ysgol ac ynddi 420 o ddisgyblion. Er ei bod yn bosibl y byddai lle yn yr adeiladau ar gyfer y nifer hwn o ddisgyblion, a hynny oherwydd y byddai modd bod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio ystafelloedd ac osgoi dyblygu defnydd, mae'r Prif Weinidog wedi nodi ei bod yn ymddangos y byddai'r neuadd a fyddai ar gael yn llai na'r maint a argymhellir ar gyfer ysgol ac ynddi 420 o ddisgyblion, heb sôn am 575, ac y byddai cryn dipyn yn llai o le y tu allan hefyd na'r isafswm a argymhellir ar gyfer 420 o ddisgyblion. Mae'r Prif Weinidog o'r farn ei fod yn bwysig bod gan ddisgyblion ddigon o le i chwarae a bod angen i'r lle sydd ar gael y tu allan fod yn addas hefyd ar gyfer cyfoethogi'r cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd hwn yn un o'r anawsterau y tynnodd rhai o'r gwrthwynebwyr sylw ato. Mae'r Prif Weinidog yn pryderu y byddai'r cyfyngiadau o ran lle yn golygu na fyddai'r safle'n addas ar gyfer darparu cwricwlwm eang a chytbwys, yn arbennig felly ar gyfer y disgyblion iau.

Mae'r Prif Weinidog yn gwybod bod yr awdurdod lleol wedi awgrymu, er mwyn osgoi gorlenwi canfyddedig ar safle Ysgol Gynradd Radnor o ganlyniad i'r ffaith y byddai hyd at 600 o ddisgyblion yno, y gellid trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gynradd Lansdowne yn raddol ac y gellid cadw rhan o safle Ysgol Gynradd Lansdowne at ddefnydd disgyblion cyfrwng Saesneg nes i'r nifer ar gofrestr Ysgol Gynradd Radnor ostwng i 420. Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod nifer o ysgolion ar fwy nag un safle ac y gall trefniadau o'r fath weithio'n dda. Nid yw o'r farn bod trefniadau o'r fath yn ddelfrydol, ac mae'n credu y byddai'n well peidio â'u mabwysiadu er mwyn gweithredu cynnig, ac eithrio am gyfnod cyfyngedig iawn yn unig. Ym marn y Prif Weinidog, gallai awgrym yr awdurdod lleol arwain naill ai at greu ysgol ar fwy nag un safle am gyfnod o hyd at 6 blynedd, neu at sefyllfa dros yr un cyfnod o amser lle y byddai llawer mwy o ddisgyblion ar safle'r ysgol nag a ddylai fod. Nid yw'r Prif Weinidog o'r farn y byddai'r naill sefyllfa na'r llall yn fodd i sicrhau y byddai cwricwlwm eang a chytbwys yn cael ei ddarparu ar gyfer y plant hyn; mae hon yn ystyriaeth o'r pwys mwyaf y mae angen rhoi sylw iddi wrth benderfynu ar unrhyw gynnig (Cylchlythyr 23/02).

Er ei bod yn bosibl bod ysgolion eraill â thros 400 o ddisgyblion ar safleoedd tebyg o ran maint yn gweithredu'n foddhaol ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o Gymru, ac yn wir yng Nghaerdydd ei hun, mae'r Prif Weinidog o'r farn, yn achos ysgolion sy'n rhan o gynnig ad-drefnu, mai'r nod yw sicrhau ysgol sy'n cynnig y cyfleoedd gorau posibl i ddisgyblion. Ar sail y canllawiau yn y Bwletin Adeiladu, dichon fod safle Ysgol Gynradd Radnor yn fwy addas ar gyfer ysgol ag 1.5 dosbarth mynediad nag ar gyfer ysgol â 2 ddosbarth mynediad, ac ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol, bu'r Prif Weinidog yn pwysu a mesur a fyddai'n briodol addasu'r cynnig i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, ni chafodd ei ddarbwylllo i ddilyn y trywydd hwn gan y byddai gwneud hynny'n golygu y byddai'r ddarpariaeth, o ran nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg a fyddai ar gael, yn is na'r lefel y mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd ei hangen yn y dyfodol.

I grynhoi, felly, nid yw'r Prif Weinidog yn fodlon, o ran y mater hwn, y byddai'r cynigion yn fodd i sicrhau y byddai cwricwlwm eang a chytbwys yn cael ei ddarparu, a fyddai'n cynnwys holl elfennau gofynnol y cwricwlwm ar gyfer yr holl grwpiau oedran yr effeithid arnynt, gan gynnwys y rheini a fyddai'n mynd i'r ysgol ar safle Ysgol Gynradd Radnor yn y tymor byr ac yn y tymor hir.

### **(iii) Safon yr addysg a ddarperir ar hyn o bryd a gallu'r ysgolion i barhau i fedru cynnal safonau boddhaol**

O safbwynt y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, roedd y Prif Weinidog yn pryderu, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, y gallai'r ffaith y byddai llai o le ategol ar gael yn Ysgol Gynradd Radnor yn y tymor byr olygu y byddai her yn wynebu'r athrawon o ran sicrhau bod safonau'n parhau i fod yn foddhaol.

Nododd y Prif Weinidog fod yr adroddiad arolygu diwethaf am Ysgol Treganna yn dda iawn a bod y safonau a gyflawnir gan y disgyblion yn dda. Mae'n anodd i'r Prif Weinidog ddod i gasgliad y naill ffordd neu'r llall ynghylch a fyddai peidio â gweithredu'r cynigion yn arwain at ddirywiad yn y safonau yn Ysgol Treganna, ond mae o'r farn y gallai safonau fod yn llai boddhaol yn y dyfodol os bydd yr awdurdod lleol yn parhau i beidio â chadw at y nifer derbyn sy'n cael ei bennu drwy ddefnyddio'r fformiwla ar gyfer penderfynu ar gapasiti. Pe bai Ysgol Treganna'n cael ei throsglwyddo i adeiladau mwy ac ynddynt offer gwell, gallai hynny fod yn fodd i wella cyrhaeddiad disgyblion. Er hynny, nid oedd y Prif Weinidog yn gallu dod i gasgliad pendant ynghylch a fyddai'r safonau a gâi eu cyflawni gan ddisgyblion a fyddai'n symud o ganlyniad i'r cynigion yn gwella neu'n dirywio o ganlyniad i'r cynigion hynny. Ni chafwyd unrhyw adroddiad am safon yr addysg yn Ysgol Tan yr Eos ac nid yw'r Prif Weinidog wedi gallu dod i unrhyw gasgliad ynghylch a fydd modd i'r ysgol gynnal safonau boddhaol ai peidio, naill ai o weithredu'r cynigion neu o beidio â'u gweithredu, er ei fod yn nodi mai dim ond digon o le ar gyfer y dyfodol agos iawn sydd ar gael yn yr ysgol.

Fodd bynnag, gan na chafwyd unrhyw gyngor gan Estyn i'r perwyl bod cysylltiad clir rhwng y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'r lle a ddarperir ar eu cyfer, nid oedd y Prif Weinidog yn gallu gweld bod tystiolaeth gref y naill ffordd na'r llall i ddangos na fyddai'r ysgolion yn gallu cynnal safonau boddhaol o ran cyflawniad y disgyblion, naill ai o weithredu'r cynigion neu o beidio â'u gweithredu. O dan yr amgylchiadau hynny, nid oedd y Prif Weinidog o'r farn bod y mater hwn yn rheswm dros beidio â chymeradwyo'r cynigion.

### **Cyllid**

Roedd y Prif Weinidog o'r farn bod y cynigion yn ffordd gosteffeithiol o ddefnyddio arian cyhoeddus drwy geisio defnyddio'r ffaith bod lleoedd gwag yn y sector cyfrwng Saesneg i fodloni'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd y byddai'r arbedion refeniw a fyddai'n dod yn sgil cau ysgolion yn helpu i fodloni'r costau cyfalaf sydd ynghlwm wrth wella adeiladau ysgolion a chroesawodd y dull hwnnw o weithredu.

### **Materion eraill a godwyd gan y gwrthwynebwyr**

Amrywiaeth ddiwylliannol/yr effaith ar ddisgyblion nad Saesneg yw eu mamiaith – ar sail Adroddiad Arolygiad Estyn ar Ysgol Gynradd Radnor a'r ffaith bod gan yr ysgol eisoes nifer mawr o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, nid yw'r Prif Weinidog yn ystyried bod unrhyw le i gredu y byddai plant o gefndiroedd o'r fath, gan gynnwys y rheini nad Saesneg yw eu mamiaith, o dan anfantais pe baent yn cael eu throsglwyddo o Ysgol Gynradd Lansdowne i Ysgol Gynradd Radnor. Mae'r ddwy ysgol eisoes yn derbyn plant o gefndiroedd ethnig amrywiol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth ym marn y Prif Weinidog i ddangos bod Ysgol Gynradd Lansdowne yn gallu diwallu anghenion plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well.

Roedd rhai gwrthwynebwyr yn pryderu y byddai gweithredu'r cynigion hyn yn arwain at anghydbwysedd yng nghyfansoddiad ethnig ysgolion cyfrwng Saesneg ardal Treganna.

Gan fod lleiafrif sylweddol o ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd Lansdowne ac Ysgol Gynradd Radnor, ill dwy, yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, os bydd y rhan fwyaf o blant Ysgol Gynradd Lansdowne yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Radnor, fel y mae'r awdurdod lleol yn ei ddisgwyl, nid yw'n amlwg i'r Prif Weinidog y byddai'r sefyllfa yn newid rhyw lawer, pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, o'r sefyllfa bresennol.

Gwasanaethu'r Gymuned – gan na fyddai unrhyw safle ysgol yn cael ei golli yn sgil gweithredu'r cynigion hyn, roedd y Prif Weinidog yn fodlon â dadl yr awdurdod lleol na fydd y cynigion hyn yn cael fawr o effaith ar y ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol, o ran y disgyblion nac o ran y gymuned ehangach.

Amcanestyniadau o niferoedd disgyblion/lleoedd dros ben/lleoedd mewn meithrinfeydd – mae'r Prif Weinidog yn nodi bod gwrthwynebwyr wedi nodi'n gywir bod y gyfradd genedigaethau yn ardal Treganna, yn ogystal â llawer o ardaloedd eraill yng Nghaerdydd, wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn yn cael effaith ar y niferoedd sy'n cael eu derbyn i addysg feithrin ac addysg gynradd. Fodd bynnag, nid yw'r Prif Weinidog wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw methodoleg yr awdurdod lleol ar gyfer rhagamcanu niferoedd disgyblion yn y dyfodol yn briodol, nac unrhyw dystiolaeth ychwaith bod ei amcanestyniadau yn debygol o fod yn anghywir. Mae wedi edrych eto ar amcanestyniadau diweddaraf (2009) yr awdurdod lleol o niferoedd disgyblion a'u cymharu â'r niferoedd ar y gofrestr ym mis Ionawr 2010, ac mae'n fodlon y byddai gan yr ysgolion cyfrwng Saesneg a fyddai ar ôl yn ardal Treganna, sy'n cynnig 420 lle yr un, ddigon o le rhyngddynt i fodloni'r galw am leoedd a fyddai'n codi yn ardal Treganna ei hun. Mae'r Prif Weinidog yn nodi y byddai hynny, yn fwy na thebyg, yn golygu y byddai llai o ddisgyblion o'r tu allan i ardal Treganna wedi gallu cael lle mewn ysgolion yn Nhreganna nag sy'n cael lle ynddynt ar hyn o bryd, ond mae'n nodi bod hwn yn un o'r amcanion a gafodd eu datgan gan yr awdurdod lleol wrth gyflwyno'r cynnig, a'i fod yn gyson â'r egwyddor o 'ysgolion lleol i blant lleol'.

#### Safleoedd ysgolion/Atebion Amgen/Ymgynghori

Wrth wrthwynebu'r cynnig, mae rhai o'r gwrthwynebwyr o'r farn y byddai'n achosi cryn aflonyddwch i lawer o ddisgyblion ac athrawon, a bod nifer cymharol uchel o ddisgyblion lleol yn mynychu Ysgol Gynradd Lansdowne.

Nododd y Prif Weinidog mai 31% yn unig o'r disgyblion yn nalgylch Ysgol Gynradd Lansdowne sy'n mynychu eu hysgol cyfrwng Saesneg leol, ac mai 22% yn unig o ddisgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Radnor sy'n mynychu eu hysgol cyfrwng Saesneg leol hwy. Mae'r Prif Weinidog wedi sylwi bod bron i ddwywaith nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Radnor yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Lansdowne, a bod dadl gref dros gefnogi cynnig i leoli ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal hon yn y dalgylch lle mae mwy o ddisgyblion yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. Nododd y Prif Weinidog fod Ysgol Pwll Coch eisoes mewn lleoliad cyfleus i blant o ddalgylch Ysgol Gynradd Lansdowne ac mai hon yw'r ysgol a ffeirir gan y rhan fwyaf o rieni'r dalgylch hwnnw sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad yw'n ymddangos, ym marn y Prif Weinidog, bod yr awdurdod lleol wedi datblygu'r cynnig mwyaf strategol posibl, mae'n cydnabod bod yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig hwn yn agos at ei gilydd o ran eu lleoliad, ac y byddai'r naill ysgol neu'r llall mewn lleoliad digon cyfleus i wasanaethu'r dalgylch cyfunol yn y dyfodol, ac na fyddai'n rhaid i ddisgyblion deithio pellteroedd afresymol i'r ysgol.

Mae llawer o wrthwynebwyr wedi awgrymu y byddai cynnig gwreiddiol yr awdurdod lleol (2006) i gau Ysgol Gynradd Radnor yn hytrach nag Ysgol Gynradd Lansdowne, a

chaniatáu i Ysgol Treganna ymestyn i'r safle gwag, yn ffordd well o fynd i'r afael â'r mater o leoedd dros ben yn y sector cyfrwng Saesneg a'r gorallw yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae pryderon wedi'u mynegi hefyd nad oedd yr awdurdod lleol wedi ymgynghori yn benodol ar yr opsiwn i gau Ysgol Gynradd Radnor.

Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog yn nodi bod yr awdurdod lleol, mewn ymateb i'r gwrthwynebwyr, wedi cyflwyno sail resymegol dros ddewis yr opsiwn posibl o gau Ysgol Gynradd Lansdowne a'i fod, o ganlyniad, wedi ymgynghori ar yr opsiwn hwnnw yn hytrach na'r un a ffeirir gan rai o'r gwrthwynebwyr.

Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod mai dim ond ar y cynigion y mae'n dymuno eu cyflwyno y mae gan yr awdurdod lleol yr hawl i ymgynghori arnynt ac mai rôl Gweinidogion Cymru yw penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu cymeradwyo ag addasiadau, eu gwrthod, neu roi cymeradwyaeth amodol iddynt, ac nid o reidrwydd ystyried a allai cynnig gwahanol fod yn well. Fodd bynnag, er mai mater i'r awdurdod lleol yn unig yw penderfynu pa gynigion y mae'n dymuno ymgynghori arnynt, mae cyfraith achosion wedi cadarnhau bod gofyn ystyried yn gydwybodol y pwyntiau a'r materion sy'n codi yn ystod yr ymgynghoriad cyn dod i benderfyniad terfynol ac wrth benderfynu pa gynigion statudol i'w cyhoeddi. Cyflwynwyd y dadleuon dros gau Ysgol Gynradd Radnor ac ymestyn Ysgol Gynradd Treganna ar y safle hwnnw yn glir gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Felly, roedd angen i'r awdurdod lleol ystyried y dadleuon hynny (a oedd yn ganlyniad i'r ymgynghoriad) mewn modd cydwybodol cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch y cynigion. Roedd yr awdurdod lleol yn sicr yn ymwybodol o'r dadleuon a gynigiwyd ac roedd ei adroddiad i'r Weithrediaeth cyn i'r cynigion gael eu cyhoeddi yn cynnwys nifer yr ymgynghoreion a oedd yn ffafrio cau Ysgol Gynradd Radnor yn hytrach nag Ysgol Gynradd Lansdowne. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol i Weinidogion Cymru pa un a oedd wedi ystyried yn gydwybodol yr opsiwn o gau Ysgol Gynradd Radnor (a oedd yn ganlyniad i'r ymgynghoriad) cyn cyflwyno'r cynigion terfynol neu, gan fod yr awdurdod lleol eisoes wedi diystyru'r opsiwn hwnnw, nad oedd, mewn gwirionedd, wedi ystyried y dadleuon a wnaed mewn cysylltiad â'r mater hwn yn ystod yr ymgynghoriad. Pe byddai'r Prif Weinidog, fel arall, yn ystyried cymeradwyo'r cynigion, byddai wedi dymuno codi'r mater hwn gyda'r awdurdod lleol ac wedi ceisio sicrwydd bod yr awdurdod lleol, wrth ystyried ei benderfyniad, wedi ystyried y dadleuon o blaid cau Ysgol Gynradd Radnor a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, gan nad yw'r Prif Weinidog o'r farn y dylid cymeradwyo'r cynigion am resymau eraill, nid oedd angen mynegi barn derfynol ar yr agwedd hon ar y gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Mae nifer mawr wedi gwrthwynebu cau Ysgol Tan yr Eos, a rhai yn awgrymu y dylid ymestyn yr ysgol hon ar ei safle presennol neu ei hailsefydlu rywle arall, er mwyn iddi allu ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o blant o ardal Grangetown sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ardal Treganna. Nododd y Prif Weinidog fod yr ysgol wedi'i sefydlu fel 'dosbarth dechreuol' i wasanaethu ardaloedd Treganna a Grangetown a'i bod, tra oedd y dasg o chwilio am safle parhaol yn mynd rhagddi, yn mynd i gael ei lleoli dros dro mewn adeiladau nad oeddynt yn cael eu defnyddio yn Ysgol Gynradd Parc Ninian. Mae'n nodi hefyd mai ychydig o'r plant sy'n mynychu Ysgol Tan yr Eos ar hyn o bryd sy'n dod o ardal Grangetown a bod Ysgol Tan yr Eos yn gweithredu ar hyn o bryd fel petai'n rhan o Ysgol Treganna. Yn ogystal â hynny, mae'n nodi y bydd yr holl adeiladau sydd ar gael yn safle Parc Ninian yn llawn erbyn mis Medi 2010, gan adael ychydig iawn o amser i'r awdurdod lleol adeoli'r ysgol i safle arall. O ystyried y ffeithiau hyn, cred y Prif Weinidog ei bod hi'n rhesymol bod yr awdurdod lleol yn dymuno dod ag Ysgol Tan yr Eos ac Ysgol Treganna at ei gilydd fel un ysgol ar un safle. Mae'r Prif Weinidog yn nodi bod lefel bresennol y ceisiadau am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oddi wrth rieni sy'n byw yn ardal

Grangetown yn awgrymu bod y galw yn ddigon uchel i'r awdurdod lleol ystyried sefydlu ysgol yno.

O ran yr ymgynghoriad, roedd y Prif Weinidog yn pryderu am y ffaith nad oedd sylw penodol wedi cael ei roi yn ystod yr ymgynghoriad i gau Ysgol Tan yr Eos, nac i'r dadleuon o blaid cymryd y cam hwnnw, ac mae'n ystyried y dylid fod wedi gwneud hynny. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae'n fodlon bod yr ymgynghoriad, gan gynnwys cyfarfodydd â staff, llywodraethwyr a rhieni, wedi sicrhau bod y rheini a fyddai, o bosibl, yn dymuno gwrthwynebu cau Ysgol Tan yr Eos yn ymwybodol o'r opsiwn hwnnw ac am y sail resymegol drosto a'u bod wedi cael digon o gyfle i gynnig sylwadau arno. Er y gellid bod wedi cynnal yr ymgynghoriad ar Ysgol Tan yr Eos mewn ffordd well, mae'n fodlon bod yr ymgynghoriad wedi bod yn ddigonol ac ni fyddai wedi gwrthod y cynnig ar y sail honno.

Ar wahân i'r materion a nodwyd uchod, mae'r Prif Weinidog yn fodlon bod hyd yr ymgynghoriad (7 wythnos) a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r cynigion hyn, yn ogystal â'r modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw, yn ddigonol a bod y rheini â buddiant yn y cynigion wedi cael cyfle i fynegi eu barn, gan gynnwys y rheini nad Cymraeg na Saesneg yw eu mamiaith.

### Trosglwyddo

Cydnabu'r Prif Weinidog y byddai'n rhaid mynd ati ar y cyd â staff a chyrrff llywodraethu'r ysgolion o dan sylw i bennu llawer o fanylion y trosglwyddo, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Fodd bynnag, gallai'r awdurdod lleol fod wedi darparu manylion bras yr hyn y disgwylid iddo ddigwydd. Er hynny, mae'n fodlon nad oedd y diffyg hwn o ran gwybodaeth yn ddiffyg difrifol yn nilysrwydd y broses ymgynghori. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i'r Prif Weinidog wedi hynny mai ei fwriad oedd y byddai pob plentyn yn trosglwyddo i'w lleoliadau newydd yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd (2011-12).

Mae'r Prif Weinidog wedi ystyried pob pwynt arall a godwyd yn y gwrthwynebiadau. Mae'r llythyr hwn yn nodi'r casgliadau y daethpwyd iddynt am y materion yr ymddengys i'r Prif Weinidog yw'r prif rai sy'n codi. Nid yw'r ffaith nad yw mater yn cael ei grybwyll yn benodol yn golygu na chafodd ei ystyried.

### **Casgliadau**

Wrth wrthod y cynnig hwn, mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod safle presennol Ysgol Gynradd Treganna/Ysgol Gynradd Radnor yn gweithredu gyda mwy na 420 o ddisgyblion.

Mae'r rhieni sy'n cynrychioli disgyblion yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n cefnogi'r cynigion, wedi tynnu sylw at gyfyngiadau difrifol y safle ac mae'r Prif Weinidog yn cydymdeimlo'n llwyr â'u barn a'u dyhead cryf i gael adeiladau gwell ar gyfer eu plant. Fodd bynnag, o ran plant a fyddai'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Radnor o Ysgol Gynradd Lansdowne, mae'n ymwybodol y gallai'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â safle llai o faint amharu ar eu profiad addysgol. Codwyd y pwynt hwn gan y gwrthwynebwyr.

Er bod y Prif Weinidog wedi cael awgrymiadau oddi wrth yr awdurdod lleol ar sut y gellid mynd ati'n ymarferol i leddfu'r effaith hwn, nid yw wedi'i argyhoeddi bod yr awgrymiadau hynny yn ddigonol i wneud iawn am y ffaith na fyddai'r safle hwn yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran arwynebedd safle a argymhellir gan Fwletin Adeiladu 99. Mae'r Prif Weinidog o'r farn y gallai'r safle hwn gael effaith andwyol, yn benodol, ar ddarparu'r cyfnod sylfaen, a fydd yn dibynnu fwyfwy ar sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad rheolaidd i fannau addas y tu allan.

I grynhoi, mae'r Prif Weinidog yn gwrthod y cynigion hyn am bob un o'r rhesymau a ganlyn:

- nid ydynt yn debygol o wella safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Yn benodol, gallent dynnu oddi ar y ddarpariaeth addysgol ar gyfer nifer sylweddol o ddisgyblion drwy ddarparu ysgol (yr ysgol Radnor newydd arfaethedig) na fydd ar safle digon o faint yn y tymor byr nac yn y tymor hir
- oherwydd y cyfyngiadau ffisegol, nid ydynt yn sicrhau y bydd cwricwlwm eang a chytbwys yn cael ei ddarparu ar gyfer nifer mawr o ddisgyblion am gyfnod o hyd at 6 mlynedd ac, o bosibl, am y dyfodol rhagweladwy

Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod yna ddadleuon cryf dros ad-drefnu ysgolion cynradd yn ardal Treganna yng Nghaerdydd. Mae'n gobeithio y bydd yr awdurdod lleol bellach yn ystyried o'r newydd sut y gall sicrhau bod y galw am leoedd ysgol yn ardal Treganna, yn y sector cyfrwng Cymraeg a'r sector cyfrwng Saesneg fel ei gilydd, a nifer y lleoedd sydd ar gael yn cydweddu'n well, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael manteisio ar ysgolion lleol ag adeiladau a chyfleusterau priodol beth bynnag y bo'r cyfrwng iaith.

Mae'r Prif Weinidog yn hynod ymwybodol o gryfder y teimladau ymhlith rhieni disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n chwilio am ateb sy'n cynnig ysgol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn eu cymdogaeth eu hunain. Mae'n siŵr, fodd bynnag, na fyddai'r rhieni hynny am weld effaith andwyol bosibl ar addysg grŵp llawer mwy o faint o ddisgyblion er mwyn bodloni eu hanghenion hwy. Er bod y Prif Weinidog yn ymwybodol y bydd yr awdurdod lleol yn agor 3 ysgol newydd sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, mae'r cynnydd a wnaed hyd yma i fodloni'r galw yn yr ardal hon o Gaerdydd wedi bod yn araf. Mae'r Prif Weinidog yn derbyn bod y cynnig wedi bod gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru am fwy o amser nag y byddai'n dymuno. Fodd bynnag, mae natur gymhleth y cynigion hyn a'r nifer mawr o wrthwynebiadau a ddaeth i law wedi golygu bod ystyried y cynigion hyn wedi cymryd mwy o amser nag a fyddai'n arferol ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion. Mae'n nodi hefyd fod yr awdurdod lleol wedi ymgynghori ddwywaith ar y cynnig statudol hwn cyn cyhoeddi hysbysiad, a bod y 2 ymarfer hwn wedi cael eu cynnal 12 mis ar wahân. Mae'r Prif Weinidog yn cydnabod bod tasg anodd yn wynebu'r awdurdod lleol, ond mae'n ei annog i edrych ar y mater eto cyn gynted â phosibl.

Mae'r Prif Weinidog am weld yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r diffygion presennol o ran darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Treganna **fel mater y dylid mynd i'r afael ag ef ar frys mawr** ac i gyflwyno cynigion a fydd yn sicrhau buddiannau pob disgybl yn y dyfodol.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Tom Morgan, Prif Weithredwr Cyngor Caerdydd, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Lansdowne, Ysgol Gynradd Radnor, Ysgol Treganna, Ysgol Tan yr Eos, Ysgol Gynradd Severn, Ysgol Gynradd Kitchener, ac Ysgol Gynradd Parc Ninian a'r gwrthwynebwyr statudol. Bydd y Prif Weithredwr, y Penaethiaid a Chadeiryddion y Llywodraethwyr yn derbyn copi o'r Datganiad Gwybodaeth.

Yn gywir

*Sylvia Lindoe.*

**SYLVIA LINDOE**

**PENNAETH YR IS-ADRAN RHEOLAETH AC EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION**